**(HCC 1063)**

**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.30am trwy gyfrwng Microsoft Teams Ddydd Iau 3 Mawrth 2022**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Melody Chapman, John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Rachael Madeley Davies, Prys Morgan, Emlyn Roberts a Claire Williams

**Trwy Wahoddiad:** Maria Richards (Llywodraeth Cymru)

**Y Weithrediaeth yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes (Swyddog Gweithredol Cig Coch).
Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

1. **<u>Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd</u>**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd a fynychwyd ganddi:

26 Ionawr 2022 – Cyfarfod Grŵp Iechyd a Lles Cnofilod

27 Ionawr 2022 – Cyfarfod Defra: Amaethyddiaeth yn y DG

3 Chwefror 2022 – Diweddariad Timau Bwrdd HCC yn dilyn presenoldeb rhithwir mewn cyfarfod o Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio

5 Chwefror 2022 – Cyfarfod o Bwyllgor Tâl HCC

9 Chwefror 2022 – Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn bresennol yn rhithwir yng nghyfarfod diweddaru Llywodraethiant chwarterol HCC / Llywodraeth Cymru

18 Chwefror 2022 – Cyfarfu'r Cadeirydd, ynghyd â chynrychiolwyr eraill o'r diwydiant ag Uchel Gomisiynydd Awstralia i'r DG, Ei Ardderchogrwydd yr Anrhydeddus George Brandis QC ar Faes Sioe Môn

22 – 23 Chwefror 2022 – Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn gynrychiolwyr yng Nghynhadledd yr NFU yn Birmingham

2. **<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb</u>**

Nodwyd ymddiheuriadau ar gyfer Aelodau o'r Bwrdd, Gareth Wynn Davies a Huw Davies.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd Ddydd Iau 13 Ionawr 2022 (HCC 1053)**

Cymerwyd cofnodion cyfarfod o’r Bwrdd a gynhaliwyd Ddydd Iau 13 Ionawr 2022 fel y'i darllenwyd, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna’u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **I gymeradwyo cofnod Eitem 3 (newidiadau i DPAau Cynllun Gweithredol HCC 2021 / 2022) o gyfarfod diweddaru Timau’r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 3 Chwefror 2022 (HCC 1054)**

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd a'i lofnodi gan y Cadeirydd.

6. **Materion yn codi**

*Cyfarfod y Bwrdd Ddydd Iau 13 Ionawr 2022*

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

*Cyfarfod diweddaru timau Ddydd Iau 3 Chwefror 2022*

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

7. **Corfforaethol**

Rhodd y Swyddog Cig Coch grynodeb o’r diwygiad a wnaed i Gynllun Busnes drafft 2022 / 2026 yn dilyn adborth gan y Bwrdd ar 13 Ionawr 2022:

*Cynllun Busnes HCC*

- Ychwanegwyd targedau DPA yn ymwneud ag ymgysylltu â chyfathrebiadau e-bost a sylw yn y cyfryngau (tudalen 29)

Rhoddodd y Swyddog Cig Coch grynodeb o’r diwygiadau a wnaed i Gynllun Gweithredol drafft 2022 / 2023 yn dilyn adborth gan y Bwrdd ar 13 Ionawr 2022:

*Cynllun Gweithredol HCC*

- Roedd llinellau sylfaenol y DPAau wedi cael eu diweddaru (tudalennau 8-15)
- Ychwanegwyd targedau DPA yn ymwneud ag ymgysylltu â chyfathrebiadau e-bost a sylw yn y cyfryngau (tudalen 13)
- Atodiad 3: Cafodd Cynllun Gweithredol ei ychwanegu (tudalen 34)

a. I gymeradwyo Cynllun Busnes drafft HCC ar gyfer 2022 / 2026 (HCC 1055)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd ei gyflwyno gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

Yn dilyn trafodaeth, cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Busnes ar gyfer 2022 / 2026 yn amodol ar y newid a ganlyn:

- Ychwanegu testun at yr uchelgais cynaliadwyedd (yn yr adran Mecanweithiau Cyflawni) ynghylch 3 piler cynaliadwyedd

b. I gymeradwyo Cynllun Gweithredol drafft HCC ar gyfer 2022 / 2023 (HCC 1056)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd ei gyflwyno gan y Swyddog Cig Coch.

Yn dilyn trafodaeth, cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Gweithredol ar gyfer 2022 / 2023 (gan gynnwys yr incwm a'r gwariant a gynlluniwyd yn y gyllideb).

Y camau nesaf: Byddai'r ddwy ddogfen yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r uchod a'u cyflwyno i'r Gweinidog i'w hystyried.

8. **Adroddiadau HCC**

a. Gweithgareddau (HCC 1057)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan y Weithrediaeth.

b. Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1058)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd.

c. Ariannol – Incwm a Gwariant a’r Fantolen tan 31 Rhagfyr 2021 (HCC 1059)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafwyd crynhoad gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

d. Digwyddiadau i ddod (HCC 1060)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd.

9. **Pwyllgorau HCC**

Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu

a. *I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd Ddydd Iau 13 Ionawr 2022 (HCC 1061)*

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

Y Pwyllgor Ymchwil a Chynghori a Chyfnewid Gwybodaeth (*R&D&KE)*

b. *I dderbynl adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor R&D&KE a gynhaliwyd Ddydd Mercher 2 Chwefror 2022 (HCC 1062)*

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

c. *I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd Ddydd Iau 3 Mawrth 2022*

Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor, Gareth Wynn Davies, cafwyd adroddiad am yr uchod gan Aelod Bwrdd o'r Pwyllgor, John T Davies.

10. **Unrhyw fater arall**

*Yr Unol Daleithiau – Rheol Cnofilod Bach*

Croesawodd y Bwrdd y cyhoeddiad bod awdurdodau'r Unol Daleithiau wedi dileu'r rheol cnofilod bach, a gyflwynwyd i ddechrau ddau ddegawd yn ôl, gan wahardd mewnforion cig oen o'r DG a gwledydd eraill lle canfuwyd clefyd y crafu.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r galw am gig defaid ym marchnad yr Unol Daleithiau a marchnadoedd tramor eraill yn gyffredinol o ystyried yr heriau presennol sy'n wynebu'r sector cig coch a'r fasnach yn dilyn Brexit a Covid. Dywedodd y Rheolwr Datblygu'r Farchnad fod HCC yn dal i weithio'n agos gyda Phartneriaeth Ardystiad Allforio y DG (UKECP) a'i fod hefyd wedi ymgysylltu â Llywodraethau'r DG ynghylch mynediad i'r farchnad a materion masnach.

Câi'r Bwrdd wybod am unrhyw ddatblygiadau o ran diweddariadau marchnad a chytundebau masnach a chytunwyd i ddarparu rhestr o wledydd blaenoriaethol mewn perthynas â mynediad i'r farchnad ar Sharepoint er gwybodaeth.

11. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Diweddariad telegynhadledd y Bwrdd – Dydd Iau 7 Ebrill 2022 am 9.30am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 5 Mai 2022 (Yr amser heb ei drefnu eto)

**Llofnodwyd…………………………….**